


# CYNGOR TREF PORTHMADOG



## COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL Tachwedd 29 2023

**Presennol :- Cynghorwyr :-** Connor Westwood, John Gwynedd Roberts, Aled Griffith ( Cadeirydd), Dr Melfyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Gwilym Jones, Michael Roberts  
Marian Roberts ( Clerc)

**1. Ymddiheuriadau :-** dim – pawb yn bresennol

**2. Archwilio'r cyfrifon. (** Mantolen hyd at Dachwedd 21 2023 ynghlwm).

Derbyniwyd y Fantolen yn gywir yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

**3. Amcangyfrif gwariant hyd at 31.3.24 (** copi ymghlwm) a phenderfynu ar flaenoriaethau 2024-25

Cafwyd esboniad gan y Clerc dros yr amrywiaethau yn y symiau o ran gwariant rhwng eleni â'r yllynedd am y canlynol:-

**Nadolig** – wedi prynu 7 golau newydd

**Parciau a manau agored** – wedi gwario ar y byrddau gwybodaeth ar Cob Crwn; tybiau blodau newydd; wedi gorfod talu allan am waith Cae Bodawen cyn derbyn Grant amdano.

**Cyfraniadau** – y Cyngor wedi cyfrannu'n hael at Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023.

**Cae Pawb** – y Cyngor wedi derbyn grant ar ran Cae Pawb cyn ei drosglwyddo i goffrau Cae Pawb.

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**4. Graddfa Cyflog newydd Clercod 2023-24 (** copi ynghlwm)

Nododd y Clerc y bydd manylion y codiad cyflog ar raglen y Pwyllgor Llawn ar 12.12.23.

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**5. Dechrau trafodaeth am braesept 2024/2025.**(Gweler Cyllideb, a Thabl Praesept ynghlwm)

Roedd y Clerc wedi paratoi enghreifftiau o fanylion staffio /nifer y Cynghorwyr / Praesept / poblogaeth / cyllidebau amrywiaeth o Gynghorau Cymuned eraill o ran diddordeb ac fel sail i agor y drafodaeth ar osod praesept 2024-25. Cytunwyd fod y wybodaeth yn agoriad llygad a bod amrywiaeth mawr rhwng yr enghreifftiau er nad oedd patrwm neu fformiwla pendant i'w weld ynddynt. Nodwyd fod y Praesept wedi aros yr un fath ers 3 blynedd er fod lefelau chwyddiant wedi codi yn sylweddol yn ddiweddar. Eglurwyd y byddai codiad o 7% yn y Praesept ( o £62,581.43 i £66,962.10) yn golygu codiad o ddim ond £1.93 y flwyddyn i bob tŷ ym Mhorthmadog sydd o fewn Band D Treth Cyngor.

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a rhoi cynnig gerbron y Pwyllgor Llawn i godi'r Praesept 7% yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

**6. Penodi Archwiliwr Mewnol ar gyfer 2023-24.**

Yn dilyn canmoliaeth am ei gwaith yllynedd a'r flwyddyn flaenorol

**Penderfynwyd :-** gofyn i Luned Fôn Jones, o Gyngor Gwynedd i fod yn Archwiliwr Mewnol ar gyfer Archwiliad 2023-24.

**7. Biliau i'w talu - gwariant disgwylidig**

Dim biliau i'w cyflwyno.

**8. Ceisiadau Cynllunio**

**(a) Rhif Cais .: C23/0899/44/HT ( wedi ebostio 17.11.23)**

Lleoliad : Morfa Bychan Stw, Morfa Bychan, LL49 9YH

Bwriad : Gosod offer telegyfathrebu i gynnwys polyn stryd o fath Apollo A12RV2 20 medr o uchel ynghyd a 6 antena, 1 dysgl 300 diamedr, 1 modiwl GPS, 2 cabinet, 1 cabinet mesurydd a gwaith cysylltiol.

**Penderfynwyd :- Gwrthwynebu am iddo fod yn rhy agos i stad o dai cyfagos.**

**(b) Rhif Cais .: C23/0926/44/HT ( wedi ebostio 20.11.23)**

Lleoliad : Greenacres Holiday Park Black Rock Sands, Morfa Bychan, Gwynedd, LL49 9YF

Bwriad : Gosod mast 23.14 medr o uchel i gynnal offer telegyfathrebu, 6 antena, 1 cabinet offer a gwaith cysylltiol

**Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad.**

**Penderfynwyd** hefyd i ysgrifennu at yr Adran Cynllunio i ofyn am y posibilrwydd o gyfuno'r 2 fast mewn un lleoliad / neu i'r 2 rwydwaith ffôn rannu'r un mast.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30.

Marian Roberts (Clerc)

30.11.23